

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd - Cyfeirnod. DLI 250

**Amseru:** Arferol

**Teitl:** Rhannu Gwybodaeth rhwng Heddlu Dyfed-Powys a SCHTh

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cydymffurfio

### **Crynodeb Gweithredol:**

Mae adran 3.7.6 o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd yn nodi "Er mwyn galluogi CHTh i arfer swyddogaethau ei swyddfa'n effeithiol, bydd angen mynediad arnynt i wybodaeth, swyddogion a staff o fewn eu hardal heddlu. Bydd CHTh a'r PG yn rhannu gwybodaeth lle bo hynny'n briodol i gefnogi ei gilydd i arfer eu swyddogaethau; lle mae hyn yn ymwneud â rhannu data, bydd rhannu o'r fath yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data a GDPR y DU fel y bo'n briodol. Rhaid peidio â dal mynediad i wybodaeth yn ôl yn afresymol, fel y nodir yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011. Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth yn gwarchod y prosesau o gwmpas rhannu gwybodaeth bersonol yn rheolaidd rhwng y CHTh a'r PG."

Sefydlodd trafodaethau mewnol gydag adran rheoli gwybodaeth yr Heddlu y byddai'r peryglon sy'n gysylltiedig â diogelu data personol yn trosglwyddo o'r Prif Gwnstabl i'r Comisiynydd gydag unrhyw ddata a rennir. Cytunodd y CHTh a'r PG y byddai gwybodaeth Heddlu heb ei golygu'n cael ei rhannu â gwirfoddolwyr SCHTh ar gyfer dibenion ymarferion craffu, yn amodol ar liniaru risg a phrosesau busnes priodol.

Er mwyn lliniaru'r peryglon hyd y bo'n ymarferol ac o fewn awydd risg y 2 sefydliad, mae Aseiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi'i gynnal, sy'n nodi'r lliniariadau canlynol:

- Bydd pob gwirfoddolwr yn llofnodi datganiad cyfrinachedd pan fydd yn cael ei benodi.
- Bydd pob gwirfoddolwr yn pasio Lefel 2 Fetio Personol Nad Ydynt yn Aelodau o'r Heddlu.
- Dylai pob gwirfoddolwr gwblhau hyfforddiant y Coleg Plismona (NCALT) ar Diogelu Data a Diogelu Gwybodaeth lefel 1.
- Dangosir deunydd hyfforddiant Ymgynefino Ar-lein yr Heddlu, sy'n cynnwys adran ar ddiogelu data a chyfrinachedd, i bob gwirfoddolwr.
- Bydd yr holl wybodaeth heb ei golygu a roddir ym Mhencadlys yr Heddlu o dan oruchwyliaeth SCHTh a bydd yr holl wybodaeth a nodiadau'n cael eu casglu ar ddiwedd unrhyw sesiwn a'u dinistrio.
- Gofynnir i bob gwirfoddolwr gamu allan o'r ystafell os ydyn nhw'n adnabod unrhyw un mewn unrhyw achos.
- Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn llofnodi Cod Ymddygiad ar wahân sy'n cyfeirio at sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael ei rhannu.
- Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd sy'n darllen Cofnodion Dalfa'n llofnodi Datganiad Cyfrinachedd ychwanegol.
- Rhoddir mewnbyn ar sut i gadw gwybodaeth yn ddiogel gartref i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a'r Panel Sicrhau Ansawdd.

### **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

**Llofnod:**



**Dyddiad: 03/03/2022**

## SUMMARY DECISION SHEET

**Purpose:** Commissioner Decision – Ref. DLI 250

**Timing:** Routine

**Title:** Information sharing between Dyfed-Powys Police and the OPCC

**Category of Decision / Business Area Impact:** Compliance

### Executive Summary:

Section 3.7.6 of the Joint Corporate Governance Framework sets out “In order to enable the PCC to exercise the functions of their office effectively, they will need access to information, officers and staff within their force area. The PCC and CC will share information where appropriate to support each other in exercising their functions; where this relates to the sharing of personal data, such sharing will be in accordance with the requirements of the DPA and UKGDPR as appropriate. Access to information must not be unreasonably withheld, as set out in Section 19 of the Policing Protocol Order 2011. An Information Sharing Agreement (ISA) safeguards the processes around regular sharing of personal information between the PCC and CC.”

Internal discussions with the Force information management department had established that the risks associated with the safeguarding of personal data would be transferred from the Chief Constable to the Commissioner with any data shared. The PCC and CC agreed that subject to appropriate business processes and risk mitigations, unredacted Force information would be shared with the OPCC volunteers for the purposes of scrutiny exercises.

In order to mitigate the risks as far as practicable and within the risk appetite of both organisations, a Data Protection Impact Assessment has been undertaken which sets out the following mitigations:

- All volunteers sign an undertaking of confidentiality agreement on appointment.
- All volunteers pass level 2 Non-Police Personnel Vetting.
- All volunteers should complete the College of Policing Training (NCALT) on Data Protection and Protecting Information level 1.
- Online Force Induction training material, which includes a section on data protection and confidentiality, will be shown to all volunteers.
- All unredacted information given at HQ will be under OPCC supervision and all information and notes will be collected back in at the end of any session and destroyed.
- All volunteers are asked to step out of the room if they identify anyone from any of the cases.
- ICVs sign a separate Code of Conduct which references to ensuring that no confidential information is shared.
- ICVs who review Custody Records sign an additional Undertaking of Confidentiality.
- An input on how to keep information safe at home will be delivered to ICVs and QAP.

**Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys**

I confirm I have considered whether or not I have any personal or prejudicial interest in this matter and take the proposed decision in compliance with the Nolan Principles for Conduct in Public Life.

**Signature:**



**Date: 03/03/2022**